Heol Orllewinol y Bont-faen – Cau Ffordd Wasanaethu

Disgrifiad o'r Cynnig

Stryd breswyl yw Ffordd Wasanaeth Heol Orllewinol y Bont-faen. Mae preswylwyr n lleol wedi mynegi pryderon bod nifer y cerbydau sy'n defnyddio'r ffordd wasanaeth hon wedi cynyddu. Mae Swyddogion y Cyngor wedi bod ymchwilio i'r mater hwn er mwyn asesu'r broblem a dod o hyd i ateb.

Yn dilyn gosod Camera Gorfodi mewn perthynas â'r rheol Dim Troi i'r Dde o Heol Orllewinol y Bont-faen i Amroth Road mae nifer y cerbydau sy'n defnyddio'r Ffordd Wasanaeth wedi cynyddu i bron 300 o gerbydau y dydd. Rydym wedi nodi bod cerbydau yn teithio yr holl ffordd i lawr y Ffordd Wasanaeth ac yna'n gwneud tro pedol ar draws Heol Orllewinol y Bont-faen i Amroth Road.

Rydym yn cynnig cau'r ffordd wasanaeth i gerbydau modur ar y gyffordd fwyaf deheuol â Heol Orllewinol y Bont-faen (ger Rhif 164). Bydd preswylwyr yn dal i allu defnyddio'r ffordd wasanaeth o'r ddwy gyffordd arall (ger Rhif. 224 a 276).

Gwybodaeth ychwanegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Gorchymyn Rheoli Traffig. Dyma'r cyfyngiadau a osodir ar y Briffordd sy'n cyfeirio, rheoli a gwahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft cyfyngiadau cyflymder 20mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r cyfyngiadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, rhoddir yr arwyddion neu linellau ar y safle a chânt eu gorfodi gan yr Heddlu neu Swyddogion Parcio Sifil.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn 28/7/2019

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by 28/7/2019

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD